

Fersiwn Hawdd i'w Ddarllen o

Hysbysiad Preifatrwydd Offer Fframwaith Aseu'r Teulu ar y Cyd Caerffili

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Gall bobl gael Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gan ddarparwyr o fewn ardal Caerffili.



Os oes angen **Gwybodaeth**, ni fyddwn yn cofnodi unrhyw wybodaeth amdanoch chi ar ein systemau.



Os oes angen **Cyngor**, bydd angen i ni gofnodi eich enw a'ch rhif ffôn. Bydd angen i ni hefyd gofnodi'r math o gyngor a roddir ar gyfer ein cofnodion.



Os oes angen **Cymorth**, fe'ch cyfeirir at wasanaeth cymorth. Byddwn yn cymryd gwybodaeth amdanoch chi fel y gallwn gynnig y gefnogaeth gywir i chi. Rhoddir y wybodaeth hon ar ffurflen o'r enw Fframwaith Aesu'r Teulu ar y Cyd. Bydd y ffurflen yn cael eu blaenyrru yn ddiogel i dîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd y wybodaeth yn cael ei hystyried a'i throsglwyddo i wasanaeth. Gallai'r gwasanaeth a gynigir fod yn Wasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gall y gwasanaeth a gynigir fod yn wasanaeth gan sefydliad arall. Bydd y gwasanaeth yn rhoi adborth i'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.



Gofynnir i chi am ganiatâd cyn fod unrhyw wasanaeth yn cymryd rhan. Os nad ydych am i'ch gwybodaeth gael ei throsglwyddo i wasanaeth cymorth, gallwch roi gwybod i ni ar y ffurflen.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei storio ar gronfa ddata CBSC a system wybodaeth ar y cyd. Dim ond gweithwyr proffesiynol sydd angen gweld eich gwybodaeth fydd yn gweld eich gwybodaeth.

Os credir y gallai plentyn fod mewn perygl, bydd gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn cael eu dilyn. Gall hyn gynnwys asiantaethau eraill e.e. yr heddlu, iechyd neu addysg yn cael mynediad i'ch gwybodaeth. Ni ofynnir i chi am ganiatâd ar gyfer hyn.

Mae gennych hawliau am y wybodaeth a gedwir amdanoch, gan gynnwys yr hawl i weld eich gwybodaeth. Mae gennych yr hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio.

I weld sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth, dilynwch y ddolen hon:

<http://www.caerffili.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/JAFFPrivacyNotice.aspx>

Fersiwn Hawdd i'w Ddarllen o Adran 34. Manylion y Caniatâd a gafwyd

Esboniwyd proses Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd.



Rwy'n caniatáu i:

- Fy ngwybodaeth fynd ar Ffurflen Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd
- Ffurflen Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd gael ei rhannu â Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Gwasanaeth IAA CBSC). Mae Ffurflen Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd yn cael ei rhannu gyda Gwasanaethau CBSC eraill e.e. Dechrau'n Deg neu Gefnogi Pobl
- Gwasanaeth IAA CBSC / Gwasanaeth CBSC edrych ar fy anghenion a'u trosglwyddo i wasanaeth a rhannu Ffurflen Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd.
- Y gwasanaeth cefnogi y caf fy nghyfeirio ato roi adborth ar y canlyniadau i Wasanaeth IAA CBSC / Gwasanaeth CBSC.



Rwy'n deall:

- Os oes angen mwy o rannu gwybodaeth, gofynnir i mi roi caniatâd eto.
- Efallai mai'r gwasanaeth cefnogi y caf fy nghyfeirir ato yw Gwasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili neu un a ddarperir gan sefydliad arall.
- Os oes sefydliadau gwasanaeth cymorth nad ydw i'n dymuno gweithio gyda nhw, mae'n rhaid imi roi gwybod ichi wrth lenwi'r ffurflen hon. O ganlyniad, ni fydd fy wybodaeth yn cael ei throsglwyddo iddynt a gellir dod o hyd i sefydliad gwahanol.
- Os credir y gallai plentyn fod mewn perygl, bydd gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn cael eu dilyn. Gall hyn gynnwys

asiantaethau eraill e.e. yr heddlu, iechyd neu addysg yn cael mynediad i fy ngwybodaeth. Ni ofynnir i mi am ganiatâd ar gyfer hyn.